# Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Hywel Iorwerth

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

e-bost/rhif ffôn: 03456033221

Eich cyfeiriad:hywel.iorwerth@cyg-wlc.cymru

Dylid dychwelyd yr ymatebion erbyn **16 Gorffennaf 2021** i:

Uned Gwireddu'r Cwricwlwm
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i:

e-bost: cwricwlwmigymru@llyw.cymru

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n gweithio ym maes addysg neu'n helpu i ddarparu addysg mewn lleoliad meithrin a ariennir nas cynhelir?

| **Ydw** | ☐ | **Nac ydw** | ✓ |
|---|---|---|---|

i) Os 'ydw', ym mha fath o leoliad/sefydliad yr ydych yn gweithio?
(Os nac ydw, ewch i iii isod.)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Meithrinfa ddydd breifat | ☐ | Sefydliad ambarél | ☐ |
| Grŵp chwarae | ☐ | Y trydydd sector | ☐ |
| Cyn-ysgol | ☐ | Darparwr hyfforddiant | ☐ |
| Cylch meithrin | ☐ | Llywodraeth | ☐ |
| Awdurdod lleol | ☐ | Corff rheoleiddio (gan gynnwys arolygiaethau) | ☐ |
| Consortiwm rhanbarthol | ☐ | Arall (nodwch beth): | ☐ |

ii) Beth yw eich prif rôl?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Arweinydd | ☐ | Swyddog datblygu | ☐ |
| Ymarferydd | ☐ | Datblygu polisi | ☐ |
| Athro ymgynghorol ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar (neu rôl gyfatebol) | ☐ | Aelod o'r pwyllgor rheoli | ☐ |
| Arolygydd | ☐ | Gwirfoddolwr | ☐ |
| Ymgynghorydd | ☐ | Arall (nodwch beth): | ☐ |

iii) Os nad ydych yn gweithio ym maes addysg neu'n helpu i ddarparu addysg mewn lleoliad a ariennir nas cynhelir, yn rhinwedd pa rôl yr ydych am roi adborth?

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwarchodwr plant | ☐ | Plentyn neu berson ifanc (o dan 18 oed) | ☐ |
| Ymarferydd mewn lleoliad nas | ☐ | Myfyriwr/academydd | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ariennir nas cynhelir | | | |
| Rhiant/gofalwr | ☐ | Arall (nodwch beth): | ✓ |
| Oedolyn 18 oed neu’n hŷn (ddim yn rhiant nac yn ofalwr) | ☐ | | |

iv) Ydych chi’n darparu adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

Os ‘ydw’, nodwch pa sefydliad/grŵp.

| |
|---|
| Comisiynydd y Gymraeg |

**Cwestiwn 2** – I ba raddau y bydd y cwricwlwm hwn yn cefnogi cynllunio effeithiol mewn lleoliadau a ariennir nas cynhelir?

| **Ddim yn ei gefnogi o gwbl** | **Ddim yn ei gefnogi ryw lawer** | **Ddim yn gwneud unrhyw wahaniaeth** | **Yn ei gefnogi ryw fymryn** | **Yn ei gefnogi’n fawr** |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 3** – Ydy hi’n glir sut mae’r pedwar diben yn sail i gyflwyno’r cwricwlwm hwn?

| **Aneglur iawn** | **Ychydig yn aneglur** | **Ddim yn glir nac yn aneglur** | **Yn weddol glir** | **Yn glir iawn** |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 4** – Ydy'r llwybrau datblygu yn adlewyrchu mewn ffordd briodol y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig?

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 5** – Ydych chi'n gallu gweld sut bydd cyflwyno'r cwricwlwm hwn yn sicrhau cynnydd plant o'r llwybrau datblygu i'r disgrifiadau dysgu yng ngham cynnydd 1?

| Ydw | ☐ | Nac ydw | ✓ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| Gweler ein ymateb i gwestiwn 19 |

**Cwestiwn 6** – I ba raddau y mae pwrpas y llwybrau datblygu wedi'i esbonio?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Yn weddol glir | Yn glir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 7** – Oes rhywbeth ar goll o ddatganiadau'r llwybrau datblygu?

| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Os oes, nodwch beth.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 8** – Ydy'r llwybrau datblygu yn ddigon cynhwysol i gwmpasu pob plentyn?

| Ydynt | ☐ | Nac ydynt | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 9** – I ba raddau y mae rolau'r ymarferydd, yr amgylchedd a phrofiadau wedi'u hesbonio?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Yn weddol glir | Yn glir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 10 –** I ba raddau y mae'r cysylltiad rhwng y llwybrau a rôl yr ymarferydd, yr amgylchedd a phrofiadau wedi'i esbonio?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Yn weddol glir | Yn glir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 11** – I ba raddau y mae'r cwricwlwm hwn yn esbonio sut bydd y llwybrau datblygu yn helpu i ddatblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Yn weddol glir | Yn glir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

| |
|---|
| |

**Cwestiwn 12** – **I** ba raddau y mae'n glir bod angen ymgorffori datblygiad y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol yn arferion cyfannol y cwricwlwm cyfan?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Yn weddol glir | Yn glir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

**Cwestiwn 13** – I ba raddau y mae'r datganiadau fesul cam ar gyfer y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol o help o ran gefnogi ymarferwyr i ddeall sut mae plant yn datblygu'r sgiliau hyn?

| Ddim yn help o gwbl | Mymryn o help | Yn help gweddol | Yn help mawr | Yn help aruthrol |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

**Cwestiwn 14** – Pa wybodaeth ychwanegol, os o gwbl, fyddai'n helpu?

**Cwestiwn 15** – I ba raddau y mae rolau gwahanol arsylwi ac asesu, yn ogystal â'r cysylltiad rhyngddynt, wedi'u hesbonio?

| Aneglur iawn | Ychydig yn aneglur | Ddim yn glir nac yn aneglur | Yn weddol glir | Yn glir iawn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

**Cwestiwn 16** – I ba raddau y mae'r adran ar wella ymarfer yn helpu?

| Ddim yn help o gwbl | Mymryn o help | Yn help gweddol | Yn help mawr | Yn help aruthrol |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

**Cwestiwn 17** – Pa wybodaeth ychwanegol, os o gwbl, fyddai'n helpu yn yr adran hon?

**Cwestiwn 18** – I ba raddau y mae'r cwestiynau myfyriol yn y cwricwlwm hwn yn helpu o ran:

i) cefnogi gwaith trefnu?

| Ddim yn help o gwbl | Mymryn o help | Yn help gweddol | Yn help mawr | Yn help aruthrol |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

ii) ysgogi ymarferwyr i ystyried eu gwybodaeth a'u sgiliau?

| Ddim yn help o gwbl | Mymryn o help | Yn help gweddol | Yn help mawr | Yn help aruthrol |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

iii) gwella arferion yn barhaus?

| Ddim yn help o gwbl | Mymryn o help | Yn help gweddol | Yn help mawr | Yn help aruthrol |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Esboniwch eich ateb.**

**Cwestiwn 19** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cwricwlwm hwn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

**Sylwadau cyffredinol - gofynion y cwricwlwm**

- Fel mae adran 2.2 y ddogfen ymgynghori yn nodi, mae rhaid i'r cwricwlwm gynnwys pob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad a hefyd elfennau gorfodol y cwricwlwm. Fel y gwyddoch mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o'r maes dysgu a phrofiad Ieithoedd Llythrennedd a Chyfathrebu ac yn elfen orfodol o'r cwricwlwm. Fel yr ydym yn egluro ymhellach yn ein sylwadau isod, nid ydym o'r farn bod y cwricwlwm hwn yn rhoi arweiniad digonol ynghylch sut dylid cyflwyno'r Gymraeg mewn lleoliadau meithrin (yn enwedig o ran lleoliadau cyfrwng Saesneg).
- Mae ein pryderon yn ymwneud yn benodol â sut dylai lleoliadau cyfrwng Saesneg gyflwyno'r Gymraeg i blant. Tra bo'r cwricwlwm yn rhoi sylw amlwg i sgiliau llythrennedd (fel un o'r sgiliau trawsgwricwlaidd), nid yw'n mynd i'r afael â datblygu sgiliau dwyieithog plant. Tra ei bod yn wir y bydd nifer sylweddol o leoliadau meithrin yn cymhwyso'r canllawiau hyn er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd Cymraeg plant (hynny yw mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg), mae'n wir hefyd mai canolbwyntio ar sgiliau Saesneg fydd mwyafrif lleoliadau meithrin (hynny yw, yn y lleoliadau nad ydynt yn leoliadau cyfrwng Cymraeg). Er hyn, mae dyletswydd ar y lleoliadau meithrin cyfrwng Saesneg hyn i ddatblygu sgiliau Cymraeg y plant yn ogystal. Nid oes yr un ddyletswydd ar leoliadau cyfrwng Cymraeg i ddatblygu sgiliau Saesneg plant.
- Nid ydym felly o'r farn bod y cwricwlwm hwn yn adlewyrchu gofynion Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) o safbwynt y Gymraeg a'r Saesneg yn ddigon eglur. Credwn bod lle i gynnig arweiniad pellach o ran materion yn ymwneud a chyfrwng iaith addysgu y cwricwlwm. Dylid ei gwneud yn glir bod Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn galluogi model addysg trochi (lle bydd lleoliadau Cyfrwng Cymraeg yn trochi disgyblion yn yr iaith Gymraeg yn unig), ac hefyd yn gosod dyletswydd ar bob lleoliad i gychwyn datblygu sgiliau dwyieithog plant. Deallwn y bydd y prif ddisgwyliadau o ran llythrennedd a chyfathrebu yn cael eu cyflawni'n bennaf drwy gyfrwng y Saesneg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag mae angen arweiniad a chefnogaeth bellach arnynt o safbwynt y disgwyliadau cenedlaethol sydd arnynt i gyflwyno'r Gymraeg yn ogystal.
- Fel y gwyddoch, mae canllawiau fframwaith cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn glir bod angen i ysgolion addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg, ac mae'r disgrifiadau dysgu yn cynnwys camau cynnydd penodol i leoliadau cyfrwng Saesneg o ran y Gymraeg. Nid oes yr un eglurder yn y cwricwlwm drafft hwn, a phryderwn y byddai modd i leoliadau meithrin ddewis ym mha iaith y byddant yn cyflawni gofynion y cwricwlwm o ran iaith a llythrennedd. Mae peryg felly na fydd rhai lleoliadau cyfrwng Saesneg yn rhoi sylw digonol i'r Gymraeg, a bydd plant ddim wedi'u paratoi yn ddigonol ar gyfer

cychwyn eu taith i ddatblygu hyder yn y Gymraeg fel rhan o gwricwlwm ysgolion. Mae hyn yn destun pryder o ystyried gweledigaeth y Llywodraeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac yn benodol y cynnydd sylweddol y maent yn rhagweld yn nifer disgyblion y gyfundrefn addysg cyfrwng Saesneg fydd yn gadael yr ysgol yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r taflwybr i'r miliwn o siaradwyr yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd 50% o ddisgyblion y gyfundrefn addysg cyfrwng Saesneg yn gadael yr ysgol yn siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae angen i'r cwricwlwm adlewyrchu'r weledigaeth hwn, a paratoi holl blant Cymru i gychwyn ar eu taith i ddatblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus.

- I grynhoi felly, ein dadl yw bod angen i'r cwricwlwm fod yn fwy eglur ar ddau bwynt:
    1. Bod modd i leoliadau cyfrwng Cymraeg barhau i ddilyn model addysg drochi, ac nad oes disgwyl iddynt gyflwyno'r Saesneg fel elfen o'r cwricwlwm.
    2. Os mai'r Saesneg yw prif gyfrwng addysgu'r lleoliad meithrin, yna mae disgwyliadau ychwanegol o ran cyflwyno a datblygu sgiliau Cymraeg plant. Yn amlwg, nid yw'r disgwyliadau hyn gyfystyr â'r disgwyliadau mwy cyffredinol o ran llythrennedd a chyfathrebu, ac felly dylid cynnwys adran yn y cwricwlwm ynghylch hyd a lled y disgwyliadau hyn, ynghyd â chefnogaeth o ran sut i gyflawni hyn.

- Y ffordd hawddaf o gyflawni'r uchod yw cynnwys adran benodol sy'n delio â hyn yn y cwricwlwm i leoliadau meithrin. Yn hytrach na bod angen ail-adrodd hyn drwy gydol y ddogfen wrth gyfeirio at lythrennedd neu gyfathrebu, dylid cynnwys adran benodol sy'n delio â natur ddwyieithog addysg yng Nghymru. Dylai'r cyfarwyddyd hyn adlewyrchu Deddf Cwricwlwm ac Asesu Cymru ynghylch model addysg drochi hyd at 7 oed, a'r gofyniad statudol i bob lleoliad meithrin ac ysgol ddysgu'r Gymraeg o 3-16. Mae'n bosib mai dyma fyddai adran 2.4 (elfennau gorfodol o cwricwlwm) yn wneud – ond nid yw'r adran hwn wedi ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori.

**Cyflwyno elfennau gorfodol y cwricwlwm**

- Mae Adran 2.4 y ddogfen yn trafod elfennau gorfodol y cwricwlwm. Mae'r ddogfen yn nodi y *'bydd yr adran hon wedi'i chwblhau fel rhan o'r gwaith mireinio a fydd yn dilyn y cam adborth hwn'*.
- Nid yw'n glir pam nad yw'r adran hon wedi'i chwblhau nac ychwaith beth fydd hyd a lled yr adran. Gan fod y Gymraeg yn un elfen orfodol o'r cwricwlwm, mae'n bosib bod llawer o'r sylwadau rydym yn eu codi yn ein hymateb i'r ymgynghoriad yn bethau sydd o bosib am gael eu cynnwys yn yr adran hon. Mae'n anodd iawn ymateb i'r cwricwlwm gyda darn mor allweddol heb ei gynnwys.

**Pum llwybr datblygu**

- Mae’r cwricwlwm yn cynnwys pum llwybr datblygu allweddol sy’n hanfodol er mwyn i bob plentyn ifanc ddysgu a datblygu: perthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol, lles.
- Nid yw’r llwybr datblygu ‘cyfathrebu’ yn cyfeirio at y Gymraeg/Saesneg. Rydym yn derbyn mai’r pwynt pwysig yn fan hyn yw bod plant yn datblygu'r sgiliau cyfathrebu allweddol hyn, boed hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ond mae hefyd yn ofyniad i’r sector addysg, gan gynnwys pob lleoliad meithrin, gyflwyno’r Gymraeg i bob plentyn. Nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yma.
- Fel rydym eisoes wedi nodi, credwn bod angen i’r cwricwlwm drafod yn fwy eglur materion yn ymwneud a chyfrwng iaith addysgu, ac hynny yng nghyd-destun y weledigaeth i sicrhau cynnydd yn nifer y disgyblion sy’n hyderus yn defnyddio’r Gymraeg a’r Saesneg.

**Sgiliau trawsgwricwlaidd**

- Mae adran 9.1 yn trafod llythrennedd, ac mae’r ddogfen yn nodi:

  *‘Dylai pob plentyn gael cyfleoedd i ddysgu bod gan Gymru ddwy iaith swyddogol ac y caiff llawer o ieithoedd eraill eu siarad yn ein cymunedau. Mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau y bydd plant yn meithrin agweddau cadarnhaol at ieithoedd gwahanol a’r bobl sy’n eu siarad. Dylai’r sgiliau iaith a ddysgir mewn un iaith gefnogi’r gwaith o feithrin gwybodaeth a sgiliau mewn iaith arall.’*

- Mae gofynion y cwricwlwm yn mynd ymhellach na sicrhau bod gan blant ymwybyddiaeth o ddwy iaith fwyaf Cymru. Mae dyletswydd ar bob lleoliad meithrin ac ysgol i addysgu’r Gymraeg i bob plentyn. Wrth gwrs, mae cyfyngiadau o ran hyd a lled y disgwyliadau hyn yng nghyd-destun plant ifanc iawn sydd heb feistroli eu hiaith gyntaf/hieithoedd cyntaf eto, ond mae disgwyl i leoliadau meithrin o leiaf gychwyn taith bob plentyn i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus.
- Er ein bod yn derbyn bod angen bod yn realistig a chymesur ynghylch y disgwyliadau y gellir eu gosod ar blant ifanc sydd mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg o safbwynt eu datblygiad yn y Gymraeg, dylid pwysleisio’r dystiolaeth sy’n dangos bod cyfnod 0-5 oed yn oedran pan fydd caffael iaith yn digwydd yn gyflym a naturiol. Yn ogystal â hyn, mae’r dystiolaeth yn dangos bod dysgu’r Gymraeg o’r cychwyn cyntaf o fewn y gyfundrefn addysg yn allweddol er mwyn cynhyrchu siaradwyr Cymraeg hyderus.
- Fel sydd eisoes wedi’i grybwyll, nid yw’r datganiadau dysgu a’r camau cynnydd ar gyfer llythrennedd yn cyfeirio o gwbl at y Gymraeg/Saesneg. Mae’n debyg mai’r rheswm am hyn yw bod y disgrifiadau hyn yn dilyn fformat ac yn cydlynu â’r datganiadau sydd yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, sydd chwaith ddim yn cyfeirio at unrhyw iaith yn benodol. Hynny yw, gellir dehongli a chymhwyso’r fframwaith i unrhyw iaith. Er hyn byddai’n ddefnyddiol pe bai’r adran hon yn cyfeirio at y ffaith fod disgwyl i leoliadau cyfrwng Saesneg (hynny yw, y lleoliadau fydd yn

cymhwyso'r gofynion 'llythrennedd' yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg) hefyd i gyflwyno'r Gymraeg i blant. Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru ar drochi ieithyddol, nid oes disgwyliad cyfatebol i leoliadau cyfrwng Cymraeg gyflwyno'r Saesneg i blant. Y rheswm am hyn wrth gwrs, yw bod plant yn rhwym o ddysgu'r Saesneg yn naturiol waeth beth fo cyfrwng ieithyddol y dysgu, gan fod Saesneg yn iaith fwyafrifol sydd drechaf yn niwylliant cyfryngol a byd-eang.

- Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, mae'r camau cynnydd sydd yng nghanllawiau fframwaith cwricwlwm Cymru yn gosod disgwyliadau o ran y Gymraeg a Saesneg i bob disgybl. Mae'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin yn datgan yn glir bod y cwricwlwm mewn lleoliadau meithrin fod i baratoi a chychwyn taith pob plentyn tuag at gam cynnydd 1 o'r fframwaith uchod (mae'r fframwaith wedi'i gynnwys fel atodiad i'r cwricwlwm hwn am yr union reswm yma). Dylai'r cwricwlwm mewn lleoliadau meithrin felly adlewyrchu'r ffaith y bydd disgwyl i'r plant wneud cynnydd yn y Gymraeg a'r Saesneg wrth gychwyn yn yr ysgol.
- Nid ydym o reidrwydd yn dadlau fod angen newid llawer ar yr adran hon, ond gellir cynnwys brawddeg neu ddwy i adlewyrchu gofynion y cwricwlwm o ran y Gymraeg a'r Saesneg, a hefyd cyfeirio at yr adran yn y ddogfen sy'n ymhelaethu ar hyn.

**Cwestiwn 20** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y cwricwlwm hwn:

i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 21** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw, ticiwch y blwch: ☐